

Arfarnwch yn feirniadol sut mae damcaniaethau allweddol yn cyfrannu at reolaeth
dosbarth effeithiol

Tra bydd dosbarthau yn ysgolion bydd wastad y gofyn am reolaeth dosbarth. Mae dal pwysigrwydd ar gael sgiliau rheoli dosbarth yn athrawon. Yn *Class Control and Behaviour Problems* (Saunders, 1979, t. 25) dywed, 'If the class is not effectively managed, reduced concentration or actual misbehaviour can spread rapidly,'. Trwy hyn gallwn diffinio rheolaeth dosbarth fel y ffordd o atal y camfihafio o cadw lefel uchel o ddysgu trwy rheolaeth. Mae sut gymaint o wahanol ffyrdd mae athrawon yn gallu rheoli dosbarth, ond yn syml yn *Effective Classroom Management: A Teacher's Guide* (Smith a Laslett, 1993, tt. 3 – 13) dangoswyd y sgiliau fras o reolaeth dosbarth yn pedwar cam. Y cam cyntaf yw 'Get them in'. Mae'r cam yma yn gofyn bod y gwers yn dechrau mewn ffordd di-dor. Mae hyn yn meddwl pethau fel bod yn y dosbarth yn barod ar gyfer y plant, bod y plant yn gwybod cyn dod mewn ble maent yn mynd o ran eistedd a rhoi ei pethau a bod erbyn yr amser mae'r athro neu athrawes am ddechrau'r gwers bod y plant yn barod. Yr ail cam yw 'Get them out.' Yn y cam yma maen gofyn bod yr athro neu athrawes yn gallu cloi'r gwers a rhyddhau'r plant mewn ffordd mae'r plant yn gwybod fel i ymddwyn a felly mynd allan i chwarae neu adref heb yr athro neu athrawes colli rheolaeth. Y trydydd cam yw 'Get on with it.' Mae'r cam yma yn ffocysu ar sut mae'r athro neu athrawes yn mynd at y wers. Trwy sicrhau bod y cynnwys yn mynd ar cyflymder da a cadw momentwm bydd cadw rheolaeth yn hollol posib. Ac yn olaf mae 'Get on with them.' Mae'r cam yma yn gofyn i athrawon gwybod ei plant a gwybod ble mae problemau gyda'r potensial i ddigwydd gan gwybod pa plant sydd fel arfer yn achosi ymwithiadau. Mae'r pedwar cam yma yn fras ond maent yn rhoi enghreifftiau am beth sydd angen gwneud o ran rheolaeth dosbarth. Rheolaeth dosbarth yw wrth i'r athro neu athrawes ymddwyn fel ei fod nhw yn reoli'r dosbarth a drilio ei disgwyliadau mewn i'r plant maen posib cael y plant ymddwyn mewn y ffordd maent am. Ond mae gwahanol damcaniaethau o'r ffordd gorau i gael plant i ymddwyn yn y ffordd mae'r athrawon am. Yn y traethawd yma edrychir ar y damcaniaethau: Ymddygiadol a Dynol. Trwy'r traethawd yma edrychir ar beth sydd wedi ei dweud am y damcaniaethau yma a sut

all cael ei defnyddio yn dosbarthau heddiw. Hefyd edrychir ar damcaniaethau sydd yn gyferbyn y damcaniaethau edrychir ar er mwyn gweld y beirniadaeth sydd ar gael.

Y damcaniaeth cyntaf edrychir ar yw damcaniaeth ymddygiadol. Yn *Effective Verbal Communication* (Hayes, 1998, t. 87) trafodwyd yr egwyddorion allweddol o damcaniaeth ymddygiadol. Mae defnyddio theori ymddygiadol yn meddwl defnyddio: dysgu trwy adeiladu ar profiadau, meddwl ac ymddygiad, gwybodaeth yn cael ei roi gan athro neu athrawes yn ffordd strwythurol a pwyslais ar ailadrodd. Yn damcaniaeth ymddygiadol yn defnyddio dau gwahanol fath o gyflyru; sef cyflyru clasurol a cyflyru gweithredol. Mae'r pwyslais yn Cyflyru Gweithredol yn dod wrth rhoi gwobrau am ymddygiad da a cosbau am ymddygiad drwg. Y gobaith gyda gwneud hyn bydd y plant yn gwrandao ar beth mae'r athro neu athrawes yn dweud a dilyn y ffordd mae'r oedolyn yn modeli er mwyn cael gwobr neu osgoi cosb. Mae'r ffordd yma o gyflyru yn dod yn pennaf o B. F. Skinner. Yn *Psychology and the Teacher* (Child, 1997, tt. 119 – 121) trafodwyd sut gwelir Skinner bod y ffordd yma o gyflyru yn gweithio. Trwy yn cyntaf edrychir ar llygod mawr a rhoi mewn gofod cyfyng gyda'r unig ffordd o gael bwyd oedd wrth gwasgu lifer, ar ôl gwasgu'r lifer ar damwain cwpwl o weithiau roedd y llygod nawr yn gwasgu yn aml er mwyn cael y bwyd. A wedyn wrth defnyddio colomennod a gofyn nhw i cerdded mewn siâp wyth a pob tro gwneir cam cywir caf pelen o fwyd. Ar ôl bach o amser a gwneud hyn am bob cam cywir roedd yn bosib cael y colomen i gerdded yn y ffordd roedd Skinner am. Gellir defnyddio hyn mewn esiamplau dosbarth er enghraifft wrth rhoi clod neu'r defnydd o sticeri. Yn *Behaviour in Schools Theory and Practice for Teachers* (Porter, 2000, t. 26) trafodwyd y mantais o defnyddio'r ffordd yma o gyflyru. Dywed, 'By recognising students when they conform to your standards, you will motivate them to repeat appropriate behaviour,'. Maen rhoi rheswm i blant ymddwyn a'r gobaith bydd wrth wneud hyn trwy gydol ei amser yn ysgol mi fydden yn modeli trwy gydol ei fywydau. Yr ail fath o gyflyru yw cyflyru clasurol. Yn y math yma o gyflyru mae'r pwyslais ar greu ymddygiad plant gan ddefnyddio ysgogiad. Caf y ffordd yma ei ddatblygu yn gyntaf gan I. P. Pavlov. Gwelwyd sut gwnaeth Pavlov datblygu'r damcaniaeth yn *Learning Theories for Teachers* (Bigge a Shermis, 1999, t. 79). Er mwyn dod i'r canlyniad bod y methodoleg yma yn gweithio gwnaeth Pavlov dysgu ci bod pob tro maen clywed sŵn cloch mi fydd yn halltu. Er mwyn dod i'r man yma

roedd Pavlov yn canu cloch cyn rhoi'r bwyd i'r ci, er mwyn sicrhau ei fod yn cysylltu'r sŵn gyda cael bwyd, ac ar ôl i'r bwyd cael ei roi lawr mi fydd y ci yn halltu. Ar ôl gwneud hyn am amser roedd y ci yn halltu ar ôl clywed y cloch heb bod y bwyd unrhyw le o'i gwmpas. Y rheswm roedd yn gwneud hyn oherwydd yn ei feddwl roedd rheswm i'r sain o'r cloch, y rheswm oedd ei fod yn amser cael bwyd. Felly roedd Pavlov nawr yn gallu rheoli sut roedd y ci yn ymddwyn trwy defnyddio sain. Y cwestiwn yw os maen posib defnyddio'r ffordd yma yn sefyllfa dosbarth. O ran sain mae'r defnydd o ryw fath o sain yn gallu cael ei defnyddio pob tro mae'r sŵn yn mynd yn rhy uchel neu yn yr un sefyllfa defnyddio ysgogiad gweledol fel cloc yn cyfri lan yr amser mi fydden nhw yn aros mewn. Mi fydd gweld neu clywed rhain yn dangos i blentyn ei fod yn amser i nhw taweli a mi fydd yr athro neu athrawes wedi cael rheolaeth heb wir gwneud unrhyw beth. Ar gwefan Estyn (Estyn, 2010) rhoddwyd esiampl o ffordd i ddefnyddio cyflyru gweithredol yn ffordd effeithiol. Yn ysgol yn America ar gyfer grwp o blant nid oedd yn troi lan i'r ysgol a ddim rhoi ei orau mewn i dasgau crëwyd system o ennill pwyntiau. Caf pwyntiau trwy pethau fel troi lan i ysgol ar amser a cwblhau tasgau ar amser. Gall y plant yma wedyn cyfnewid y pwyntiau yma ar gyfer gwobrau. Wrth ennill mwy o bwyntiau maent yn gallu mynd lan lefelau ac ennill gwell gwobrau, ond mae hyn wedyn yn golygu cymryd mwy o amser ar tasgau i ennill y pwyntiau. Dywed yr ysgol bod hyn yn sicrhau bod, 'pupils now attend school regularly, treat others with dignity and respect, use the community safely, attend college and work experience placements and gain relevant accreditation for their work.'

Un beirniadaeth sydd gan ddefnyddio damcaniaeth ymddygiadol yw nid yw'n ffocysu ar dangos plentyn pam ni ddylai ymddwyn mewn rhyw ffordd. Yn *Effective Classroom Management: A Teacher's Guide* (Smith a Laslett, 1993, t. 97) dywed, 'the behavioural approach argues that the single most important factor in learning a behaviour is what happens immediately following that behaviour.' Y beirniadaeth yw os mae plant yn ond ymddwyn mewn ffordd dda oherwydd mi fydd yn cael clod a yw wir yn ymddygiad da? Ar yr ochr arall o ddamcaniaeth ymddygiadol yw damcaniaeth gwybyddol. Yn *Behaviour in Schools Theory and Practice for Teachers* (Porter, 2000, t. 82) dywed bod y pwrpas am ddamcaniaeth gwybyddol yw i, 'Teach students how to change their thinking by challenging their inaccurate beliefs.' Mae hyn yn hollol cyferbyn i ddamcaniaeth ymddygiadol gan ei fod yn ffocysu ar ddod y

camfihafio i ddiwedd gan sicrhau ei fod nhw yn deall pam mae beth gwnaethon nhw yn anghywir. Hefyd mae damcaniaeth gwybyddol yn anghytuno gyda'r defnydd o gosb er mwyn rheoli ymddygiad drwg. Yn *Llawlyfr ar Reoli Ymddygiad ar gyfer Ysgolion Gynradd* (Llywodraeth Cymru, 2012, tt. 4 – 5) trafodwyd yr effaith mae cosb ar ôl y cosb yn cael ar blentyn. Maen effeithio ar cortecs plant, y rhan o'r amynedd sydd yn dweud wrth blant beth sydd yn da a beth sy'n drwg, ac os mae plant yn cael rhy gormod o brofiadau gwael maen achosi nhw i dibynnu ar y system limbic i wneud dewisiadau. Nid yw'r system limbic mor effeithiol wrth wneud gwneud dewisiadau felly mi fydd y plentyn yn gwneud mwy o dewisiadau anghywir ac wrth ddefnyddio damcaniaeth ymddygiadol arwain at mwy o gosbau. Felly wrth ystyried damcaniaeth gwybyddol maen bosib all defnyddio damcaniaeth ymddygiadol, yn enwedig gyda cyflyru gweithredol, maen bosib os nad yw'n cael ei defnyddio yn ffordd effeithiol mi all cael niwed ar ddatblygiad plentyn. Yn *Behaviour in Schools Theory and Practice for Teachers* (Porter, 2000, t. 97) mae beirniadaeth arall ar y defnydd o damcaniaeth ymddygiadol, yn enwedig cyflyru gweithredol. Dywed, 'praise increases competition between students, who come to feel resentful or jealous if another student receives praise and they do not.' Os nad yw pob plentyn yn cael y cyfle i gael gwobr neu clod mae'n posib mi fydd y ffordd yma o reoli dosbarth mi all plant troi yn ei erbyn, felly maen gofyn am athrawon edrych allan am gyfleoedd i roi clod ac yna fod yn cyson.

Y damcaniaeth nesaf edrychir ar yw damcaniaeth dynol. Mae'r damcaniaeth yma yn dod oddi wrth Abraham Maslow a'i 'Hierarchy of Needs'. Yn *Psychology and the Teacher* (Child, 1997, t. 54) dywed gwnaeth Maslow darganfod y damcaniaeth yma trwy ei ymchwiliad seicoanalytig ei hunan a gwaith ymchwilwyr eraill. Yn *Psychology for Teachers* (Fontana, 1991, tt. 196 – 198) trafodwyd y prif nodweddion y damcaniaeth. Rhodd Maslow ei 'Hierarchy of Needs' mewn siâp triongl gyda chwech gwahanol lefel, ond mae enghreifftiau ble rhoddir pump lefel fel yn *Psychology in Education* (Woolfolk, Hughes a Walkup, 2008, t. 441). Ar y gwaelod o'r lefel mae'r gofynion syml a ffisegol fel cael bwyd ac yfed. Wrth fynd lan y lefelau mae'r gofynion yn mynd yn fwy cymhleth a deallusol. Y lefel top yw'r gofyn am 'Self-actualisation.' Er mwyn cyrraedd lefel mae angen sicrhau cael y lefel sydd o dan. Trwy cael pob elfen dywed Fontana maen posib bod, 'realistic, independent, creative, problem-centered rather than self-centred, and with a ready appreciation both of other people and of

the world about them.’ Trwy sicrhau bod yn esiampl plentyn cael pob elfen o’r hierarchaeth mi fydd yn posib sicrhau bod ei ymddygiad yn dda a bod rheolaeth dosbarth yn posib. Mae’r lefelau gwaelod o’r hierarchaeth yn eithaf syml i ysgol sicrhau ond wrth fynd lan yr hierarchaeth yn gofyn i athrawon creu perthnasau gyda’i disgyblion. Beth bynnag yw cefndir plentyn maen posib datblygu’r ymddygiad mae athrawon am trwy datblygu perthnasau positif gyda plant fel oedolyn a sicrhau ei fod nhw yn cael perthnasau da gyda plant eraill. Mae’r creu perthnasau yma gyda plant yn gallu cael effaith positif iawn ar ymddygiad plant. Yn enwedig os oes ymddygiad gwael wedi digwydd maen rhoi’r cyfle i athro neu athrawes trafod y problem gyda’r plentyn gan ei fod nhw yn adnabod nhw fel pobl. Yn *Class Control and Behaviour Problems* (Saunders, 1979, t. 98) dywed, ‘the aim should be to establish a supportive relationship which can be rewarding and in which the realities of the situation can be discussed.’ Trwy gwneud hyn maen posib cysylltu damcaniaeth dynol gyda damcaniaeth gwybyddol wrth drafod y problem gyda plentyn a helpu nhw i wneud y dewis cywir yn y dyfodol gan oherwydd damcaniaeth dynol bydd yr athro neu athrawes yn gwybod sut i drafod y mater gyda’r disgybl. Mae sicrhau bod athro neu athrawes yn creu amgylchedd dosbarth sy’n cyrraedd y gofynion yn yr hierarchaeth hefyd yn effeithiol er mwyn cael plant sydd gyda problemau ymlyniad gweithio tu fewn gofynion y dosbarth. Mae damcaniaeth Bowlby am ymlyniad yn cael ei drafod yn *Understanding Pupil Behaviour in Schools A Diversity of Approaches* (Wearmouth et al, 2004, tt. 157 – 158). Gwelir bod rhai plant ddim gyda’r ymlyniad gorau gyda’i rhieni neu gwarcheidwad felly maen cael effaith ar y ffordd maent yn ymddwyn ac yn y diwedd ar y ffordd maent yn datblygu fel oedolion. Yn *Young Children’s Behaviour: Practical Approaches for Caregivers and Teachers* (Porter, 2003, t. 53) dywed bod pan mae plant yn hyderus mi fydden nhw yn cael ei edrych ar ol maent yn llawer fwy tebygol i: archwilio yn ei amgylchedd, parhau i ddatrys problemau a dangos diddordeb yn ei dysgu. Mae fwy i reolaeth dosbarth na cael plant i ymddwyn mewn ffordd sbesiffig. Maen pwysig iawn gyda rheolaeth dosbarth effeithiol bod y dysgu mae plant yn cael y gorau a sydd yn posib. Nid oes angen gwneud unrhyw beth anhygoel ar gyfer cyrraedd gofynion plant. Yn *Human Relationship Skills* (Nelson-Jones, 1986) trafodwyd faint more effeithiol mae hi i ond gwrando ar plant a rhoi’r gofyn hyn i nhw. Dywed bod gwrando ar rhywun, ‘is one of the most powerful psychological rewards that you can give.’. Trwy gwneud hyn mae’r lefel o berthyn yn gallu cael ei cyrraedd a gwella perthynas rhwng plentyn yn gallu

digwydd. Ar gwefan Estyn (Estyn, 2016) rhoddir esiampl effeithiol o ysgol sy'n sicrhau ei fod nhw yn cyrraedd hierarchaeth plant er mwyn gwella ymddygiad plant. Er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cael yr ymddygiad gorau yn ei plant maent yn ffocysu ar lles plant. Maent yn gweithio gyda plant i helpu gyda'i ymddygiad os yw yn heriol a maent wedi datblygu strategaeth sydd yn cyfuno damcaniaeth dynol a damcaniaeth ymddygiadol gyda'r system 'Tree Tops.' Gyda'r strategaeth yma mae'r ysgol yn defnyddio damcaniaeth ymddygiadol o gyflyru clasurol o blant weld bod ei ymddygiad dim digon da, gan hefyd ystyried hierarchaeth o gofynion yn damcaniaeth dynol wrth ystyried y lefel 'Self-actualisation.' Mae'r plant yn gwybod ei fod nhw yn gallu troi'r sefyllfa rownd a gallu cyrraedd ei potensial gan fod llawer o gyfleoedd ar gael i nhw mynd lan y coeden. Dywed bod y canlyniadau o'r strategaeth yma oedd, 'Teachers report that pupils are less likely to disrupt learning by displaying low-level behaviour,'. Hefyd mae'r ysgol yn gweithio gyda rhieni er mwyn sicrhau bod y bywyd mae'r plant yn cael tu allan i'r ysgol yn un hapus er mwyn cyrraedd yr hierarchaeth tu fas yr ysgol. Mae'r cyfuniad yma yn sicrhau bod plant tu fas a tu fewn y dosbarth yn gallu teimlo'n diogel a gyda'r gwybodaeth bydd ei gofynion yn cael ei cyrraedd felly mae cadw rheolaeth yn y dosbarth yn posib.

Ar y llaw arall o damcaniaeth dynol mae damcaniaeth Seicodeinameg. Yn *Psychology for Teachers* (Fontana, 1991, t. 190) trafodwyd yn fras beth yw damcaniaeth Seicodeinameg. Mae'r damcaniaeth yn dweud mae ymddygiad yn plant yn dod o'r blynyddoedd cynnar o'i fywydau. Mae'r profiadau maent yn cael yn y blynyddoedd cyn dod i'r mynd i gael yr effaith mwyaf ar sut bydden yn ymddwyn yn y dosbarth. Os ystyried hyn mae defnyddio'r damcaniaeth dynol mynd i gael ddim effaith ar sut mae plant yn ymddwyn a byd cyrraedd gofynion ei hierarchaeth yn cael dim effaith. Yr unig ffordd i ddatblygu'r ymddygiad bydd i ddelio gyda'r problem o'r gorffennol ac os cred damcaniaeth seicodeinameg bydd yn well ffordd o ddatblygu ymddygiad plant na ymgeisio ffocysu ar berthnasau plant a'i gofynion yn y presennol. Yn *Psychology in Education* (Woolfolk, Hughes a Walkup, 2008, t. 441) trafodwyd y beirniadaeth sydd ar gael ar gyfer damcaniaeth Maslow. Dywed, 'people do not always appear to behave as the theory would predict.' Gwelir bod y posibilrwydd nid oes gan rhai yr un gofynion. Fel esiampl rhoddir Woolfolk, Hughes a Walkup rhywun sy'n gweithio i achub bywydau. Mae'r pobl yma yn anwybyddu y gofyn am ddiogelwch ar gyfer achub pobl. Felly wrth ystyried hyn maen posib gweld

sefyllfaoedd ble ni fydd yr hierarchaeth o gofynion yn gweithio. Os mae'r athro neu athrawes yn ystyried bod pob plentyn am yr un gofynion mae'r posibilrwydd mi fydd yn cael effaith negyddol ar y ffordd mae plant yn ymddwyn.

Mae damcaniaethau rheoli dosbarth yn rhan enfawr o sut mae dosbarthau yn cael ei rhedeg heddiw. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o wahanol damcaniaethau er mwyn sicrhau bod rheolaeth yn digwydd yn ei dosbarthiadau. Gwelir yn y traethawd bod nifer fawr o ffyrdd i weld rheolaeth dosbarth. Mi fydd rhai yn gweld fel ffordd o gael plant i ond ymddwyn yn y ffordd mae'r athro neu athrawes am i nhw. Mae rhai yn ystyried bod rheolaeth dosbarth yn rhan enfawr o gael y gorau allan o ddysgu plant ac ond gyda rheolaeth da maent yn gallu cael y gorau yma. Gyda'r dau damcaniaeth edrychir ar gallwn gweld y ffordd maent yn gallu cael rheolaeth yn dosbarth ond hefyd fod sefyllfaoedd ble all y damcaniaethau methu. Gyda damcaniaeth ymddygiadol maen posib cyflyru plant er mwyn ymddwyn yn y ffordd mae'r athro neu athrawes am. Trwy defnyddio cyflyru clasurol gall cael plant i wneud neu ymddwyn mewn ffordd wrth ddefnyddio ysgogiadau gwahanol. Maen posib defnyddio' ysgogiadau yma trwy gydol y dydd gyda rheolaeth da er mwyn sicrhau bod plant yn gwybod beth sydd disgwyl wrthyn nhw. Y methodoleg cyflyru arall yw cyflyru gweithredol. Mae hyn yn golygu defnyddio gwobrau am ymddygiad da a cosbau am ymddygiad drwg. Trwy gwneud hyn mae plant yn ymddwyn a gweithio mor galed a phosib er mwyn sicrhau cael y gwobr neu osgoi cosb. Y damcaniaeth arall edrychir ar yw damcaniaeth dynol. Mae'r damcaniaeth yn ffocysu ar y perthnasau mae plant yn cael a sicrhau ei fod nhw yn cael y gofynion sydd ar gael yn hierarchaeth Maslow. Trwy gwneud hyn maen posib delio gyda unrhyw problemau all codi ond gan gwneud hyn y gobaith yw ni fydd y plant gyda unrhyw diddordeb i ddangos unrhyw ymddygiad drwg. Gellir gweld bod y dwy damcaniaeth yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer rheolaeth dosbarth effeithiol. Gwelir hefyd yn y traethawd bod rhai sefyllfaoedd pan all y damcaniaethau dim gweithio. Ond wrth ystyried hyn ac addasu pan yn addas, a hyd yn oed ychwanegu damcaniaethau eraill yn yr achosion perthnasol maen posib cael rheolaeth dosbarth effeithiol.

Rhestr Cyfeirnod

Bigge, L. M. and Shermis, S. S (1999) *Learning Theories for Teachers*. Sixth Edition. New York: Longman.

Child, D (1997) *Psychology and the Teacher*. Sixth Edition. London: Continuum.

Estyn (2010) *Successful behaviours through reward-based programme*. Ar gael: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/successful-behaviours-through-reward-based-programme> (Darganfyddwyd: 06/05/19)

Estyn (2016) *Providing emotional support to improve pupil behaviour and wellbeing*. Ar gael: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/providing-emotional-support-improve-pupil-behaviour-and-wellbeing> (Darganfyddwyd: 08/05/19)

Fontana, D (1991) *Psychology for Teachers*. Second Edition. Leicester: The British Psychological Society.

Hayes, D (1998) *Effective Verbal Communication*. Great Britain: Hodder & Stoughton Educational.

Llywodraeth Cymru (2012) *Llawlyfr ar Reoli Ymddygiad ar gyfer Ysgolion Gynradd*. Ar gael: <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/120713primarycy.pdf> (Darganfyddwyd: 06/05/19)

Porter, L (2000) *Behaviour in Schools Theory and Practice for Teachers*. Buckingham: Open University Press.

Porter, L (2003) *Young Children's Behaviour: Practical Approaches for Caregivers and Teachers*. Second Edition. London: Paul Chapman Publishing.

Saunders, M (1979) *Class Control and Behaviour Problems*. Berkshire: McGraw-Hill Book Company (UK) Limited.

Smith, C. J. and Laslett, R (1993) *Effective Classroom Management: A Teacher's Guide*. Second Edition. London: Routledge.

Wearmouth, J et al. (2004) *Understanding Pupil Behaviour in Schools A Diversity of Approaches*. London: David Fulton Publishers.

Woolfolk, A., Hughes, M. a Walkup, V. (2008) *Psychology in Education*. Essex: Pearson Education Limited.